Taith Bywyd Gwyllt – 3 milltir
Parc Dinefwr, De Cymru

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Mae parcdir hanesyddol Dinefwr yn enwog am ddigonedd ei fywyd gwyllt a'r golygfeydd trawiadol o'r dyffryn. Credir fod rhai o'r coed hynafol dros 700 mlynedd oed ac y maent yn cynnal amrywiaeth mor eang o gen ac infertebratau fel bod y parc wedi ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yng Ngorffennaf 2007 fe ddaeth hefyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol – yr unig barcdir sy'n Warchodfa Natur Genedlaethol yng Nghymru. Mae'r daith 3 milltir hon yn cynnwys rhai o'r mannau gorau i weld bywyd gwyllt ardderchog y stad, yn ogystal â chastell canoloesol hudolus a phlasty o'r ail ganrif ar bymtheg.

Mynd yno, cyfleusterau a chyswllt: Mae Parc Dinefwr 1 filltir o ganol Llandeilo yn Ne Cymru, ychydig oddi ar yr A40 a ½milltir o Landeilo. Mae yna barcio ar gyfer yr anabl ar y stad, canolfan wybodaeth, caffi, toiledau a siop. Ewch i www.nationaltrust.org.uk/dinefwr am ragor o fanylion. Ffôn: 01558 824512.

Pwyntiau di: ddorol: wylio bywyd gwyllt bendigedig gydol y flwyddyn: gellir gweld yr ewig lwyd, adar y goedwig a gwartheg prin White Park yn Ninefwr mewn unrhyw dymor. Bydd clychau'r gog yn swyno ymwelwyr yn y gwanwyn ac, fel y bydd yn cynhesu, mae gweithgaredd pryfed yn prysuro o gwmpas y coed, bydd gwas y neidr yn ymddangos mewn mannau llaith. Yn yr hydref gallwch weld ceirw'n rhidio a gweld ffwng trawiadol fel y ffwng tafod bustach sy'n byw ar hen goed derw. Dros y gaeaf bydd adar mudol yn cyrraedd ac yn setlo yn y glaswelltir gwlyb ac o gwmpas yr ystumllynnoedd. Heb eu dail mae siapiau annaearol trawiadol i'r coed hynafol ar yr adeg yma hefyd.

- **Coetir:** mae yna bron i 300 o goed sydd dros 400 oed yma ac mae hyn yn golygu fod Dinefwr yn barcdir sy'n genedlaethol bwysig. Mae'r derw tal ym mhen gorllewinol y parc ceirw'n nodedig.
- **Adar:** mae'r tair cnocell y coed Prydeinig (y gnocell fraith leiaf, y fwyaf a'r gnocell werdd) yn byw yn y coetiroedd. Mae adar y gwlypdir sy'n ymweld yn y gaeaf yn cynnwys corhwyaid, y chwiwell a'r hwyaden gopog. Mae golfanod y coed yn ddiddorol iawn hefyd. Fel rheol maent yn adar prin sy'n prinhau ond maent yn bridio yn Nyffryn Tywi a gellir eu gweld ar y daith hon. Mae'r gwrychoedd yn gynefin pwysig ar gyfer adar bach y tir amaethyddol sydd wedi cael eu hastudio gan wirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am flynyddoedd lawer.
- **Anifeiliaid:** gyda chymaint o hen adeiladau a choed aeddfed, nid yw'n syndod fod gan Ddinefwr amrywiaeth ardderchog o ystlumod – mae ystlumod brown clustiog yn clwydo yn y gwagle yn nho Tŷ Newton. Yn y parcdir sydd o amgylch y plasty mae'n hawdd iawn gweld gwartheg White Parc a'r ewig lwyd yn pori.
- **Pryfed:** Mae Dinefwr wedi dod yn fan bwysig yng Nghymru am infertebratau, chwilod yn arbennig, oherwydd bod llawer o hen goed a phren marw wedi eu gadael o gwmpas y parc a heb eu clirio. Mae yna dros 25 o rywogaethau o bryfed sy'n genedlaethol brin ar y stad. Cadwch lygad am dwmpathau morgrug melyn yng nglaswelltir dyffryn y parc ceirw, ynghyd â llawer o was y neidr a'r fursen.
- **Fflora:** mae wal y parc ceirw a choed aeddfed yn gartref i rai o'r 160 o wahanol fathau o gen sydd i'w cael yn Ninefwr. Mae'r ellysgen felen hardd yn tyfu'n niferus iawn yn y coedlannau gan flodeuo yn yr haf cynnar. Gellir gweld llawer o blanhigion gwlypdir eraill o gwmpas yr ystumllynnoedd.

Lleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gerllaw

Aberdeunant, Mwyngloddiau Aur Dolaucothi, Tŵr Paxton, Rhaeadr Henrhyd

Gadewir canghennau sydd wedi disgyn yn fwriadol gan eu bod yn gynefin pwysig ar gyfer infertebratau saproxylic, neu 'infertebratau pren marw' fel chwilod sy'n dibynnu ar bren sy'n pydru am fwyd a lloches.

NTPL/Andrew Butler

Dengys cofnodion fod y gwartheg White Parc prin sy'n crwydro'n agos at Dŷ Newton wedi bod yn y parc am dros fil o flynyddoedd.

NTPL/Andrew Butler

Hwyr y prynhawn a min nos yw'r adeg gorau i weld yr ewig lwyd pan ddont allan i lennyrch. O Dŷ Newton edrychwch i lawr dyffryn y parc ceirw ac mae'n bosib y gwelwch chi nhw'n crwydro o gwmpas y coed.

NTPL/Peter Muhlv

"Lle pwysig yn hanes Cymru am ganrifoedd, 'dyw rhinweddau diamser tirwedd Dinefwr byth yn methu creu argraff arnaf i. Bydd y statws Gwarchodfa Natur Genedlaethol newydd yn helpu i sicrhau fod bywyd gwyllt a phobl yn aros yng nghalon y stad ar gyfer y dyfodol hefyd

Paul Faulkner, rheolwr eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Pellter, tirwedd a hygyrchedd

Mae'r daith gylchol **3ml** (5km) hon ar dir gwastad gan fwyaf. Gall fod yn fwdlyd, yn enwedig ar laswelltir llaith. Mae'r rhan a elwir yn Daith Gwas y Neidr yn gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn a choetshis cadair. Mae llwybrau cerdded eraill wedi eu hamlygu gyda thaflenni a marciau llwybr ar safle.

Y daith a chyfarwyddiadau

Troi i'r dde o'r Ganolfan Groeso a dilyn arwyddion llwybr gwas y neidr nes y dowch at y tŷ pwmpio. Yna dilynwch arwyddion llwybr y creyr glas.

1. Ewch i lawr y bryn heibio i'r tŷ colomenod ar y dde – roedd colomenod yn arfer bod yn ffynhonnell cig i'r teulu. Yn fuan fe ewch heibio i 'Fynachdy' sef hen fwthyn ciper ar y chwith.

2. Y tu hwnt i'r lladd-dy (sydd â'i winshis ar gyfer codi ysgerbydau ceirw a gwartheg i mewn yn dal yno), trowch i'r dde drwy gât i Bogwood a dilyn llwybr bordau at lyn y felin.

   Mae nant yn llifo drwy'r goedlan hanesyddol ac mae'n gartref i'r fedwen a'r wernen sy'n hoffi'r dŵr. Mae yna lawer o goed hynafol yma hefyd, yn cynnwys coeden y tybir mai hi yw'r dderwen hynaf yn y parc, ac a gychwynnodd ar ei bywyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Gallwch weld yr ewig lwyd os byddwch yn ddistaw. Mae wal y parc ceirw'n werth sylw gan ei bod wedi ei gorchuddio â chen a mwsogl.

3. Cerddwch o gwmpas llyn y felin (llyn gwneud), lle ardderchog am was y neidr a'r fursen yn y gwanwyn a'r haf. Cadwch lygad am fadfallod, llyffaint a hwyaid, yn ogystal â'r glas y dorlan yn achlysurol (os byddwch yn lwcus)! Wrth y tŷ pwmpio dilynwch yr arwyddion am lwybr y Creyr Glas.

4. Mae'r afon Tywi'n ffurfio'r ystumllynnoedd sy'n nodi ffin ddeheuol Dinefwr. Yr haf a'r gaeaf yw'r amser gorau i wylio adar y gwlypdir yma. Dilynwch linell y coed ar lwybr gydag adfeilion Castell Dinefwr o'r ddeuddegfed ganrif yn codi uwch eich pen ar y chwith.

5. Â'r afon ar y dde, cerddwch drwy ddyffryn Tywi. Mae ei wrychoedd yn gartref i boblogaeth fridio brin o golfan y coed (mae'n edrych yn debyg i aderyn y to ond mae ganddo glwt du ar ei foch).



6. Trowch i'r chwith yma ar lwybr i Eglwys Llandyfeisant.

7. Roedd yr eglwys hon yn nodwedd bwysig yn y tirwedd ddyluniedig. Fe'i hailadeiladwyd fwy-neu-lai yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond mae iddi darddiad canoloesol.

8. Ar y llwybr yn ôl i'r Ganolfan Groeso, ewch heibio i'r hyn oedd unwaith yn fryngaer fawr Rufeinig ar y llaw dde. Mae arolygon archeolegol yn dangos ei bod wedi bodoli, ond nid oes dim yn weledol ar y ddaear. Y cyfan sy'n weddill yw i chi edmygu'r gwartheg hirgorn White Park wrth i chi groesi'r parcdir a dychwelyd yn ôl i'r man cychwyn!

Fel elusen sy'n annibynnol ar y llywodraeth, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dibynnu ar haelioni ei chefnogwyr i barhau i ofalu am ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt, fel y gall pawb fwynhau harddwch yr awyr agored am genedlaethau i ddod

Darganfyddwch fwy: www.nationaltrust.org.uk